**Dyddiad:** Dydd Mercher 27 Tachwedd 2002

# TIR COMIN

## Pwrpas

1. Yn ei gyfarfod ar 16 Hydref gofynnodd y Pwyllgor am bapur yn trafod y rhagolygon ar gyfer deddfwriaeth mewn perthynas â thir comin. Mae'r papur hwn yn nodi'r sefyllfa bresennol.

## Y Cefndir

2. Cafwyd nifer o achosion o orbori a phroblemau mewn perthynas â lles anifeiliaid ar Diroedd Comin Cymru yn ddiweddar. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn archwilio pob un o'r cwynion hyn ac mae'n cydweithio â phorwyr a pherchenogion y tir er mwyn datrys y problemau hyn ond gyda nifer fawr o'r achosion bu'n anodd iawn i gael pawb i gytuno. Yn 2001, penderfynodd Llywodraeth y Cynulliad mai'r ffordd hawsaf i ddelio â'r broblem oedd cyflwyno polisïau a gweithdrefnau rheoli gwell drwy sefydlu Cymdeithasau Tir Comin gyda chyfrifoldebau statudol ar gyfer gweithredu yn y meysydd hyn.

3. Er mwyn cyflwyno gweithdrefn o'r fath mae'n rhaid wrth ddeddfwriaeth sylfaenol ond ar yr adeg honno ymddengys nad oedd Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol ar faterion yn ymwneud â Thir Comin. Felly, gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad geisio slot deddfwriaethol yng Nghyfarfodydd y Senedd ar gyfer 2002-03 am Fesur i Gymru a oedd yn delio'n benodol â sefydlu'r cymdeithasau rheoli tir comin.

4. Yn gynnar yn yr haf eleni gwnaeth Llywodraeth y DU nodi ei fod wedi derbyn bod angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn delio â nifer o faterion oedd yn ymwneud â Thir Comin gan gynnwys y materion hynny oedd yn achosi pryder i Lywodraeth y Cynulliad. Yn hyn o beth, penderfynodd Llywodraeth y Cynulliad y byddai'n ddoeth i ddelio'n gydlynol ac yn gynhwysfawr â materion sy'n ymwneud â gorbori a lles anifeiliaid. O ganlyniad tynnodd y cais am ddeddfwriaeth ar wahân i Gymru yn ôl.

## Y Cynigion Presennol

5. Ym mis Gorffennaf eleni cyhoeddodd Llywodraeth y DU Ddatganiad Polisi ar Dir Comin. Yr oedd y Datganiad yn gynhwysfawr a deliodd â'r materion canlynol:

- **Materion yn ymwneud â Chofrestru'r Tir Comin**

- **Codi Ffensys a chwblhau gwaith ar Dir Comin**
- **Grîniau Pentrefi a Threfi**
- **Rheolaeth a Defnydd Amaethyddol**

6. Cymeradwyodd Llywodraeth y Cynulliad y Datganiad a nodwyd yn gwbl glir mai'r bwriad ydoedd cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yng Nghyfarfodydd y Senedd yn 2004-05. Mae angen ychwanegu mwy at yr adran sydd yn ymwneud â rheolaeth a defnydd amaethyddol a sefydlwyd gweithgor i ymgymryd â'r gwaith. Mae cynrychiolwyr o Lywodraeth y Cynulliad a buddiannau Cymreig eraill yn aelodau o'r gweithgor ynghyd â phobl allweddol eraill o’r Llywodraeth a’r tu allan iddi. Gofynnwyd i'r gweithgor ystyried a datblygu darpariaethau ar gyfer sefydlu chymdeithasau tir comin statudol, er mwyn cynrychioli cominwyr a phobl eraill sy'n defnyddio'r tir er mwyn pori anifeiliaid, a’r cyrff rheoli sy'n cynrychioli’r holl fuddiannau gwahanol ar diroedd comin.

**Y Ffordd Ymlaen**

7. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y gweithgor y mis hwn a disgwylir iddo gwblhau ei waith erbyn diwedd mis Chwefror y flwyddyn nesaf. Caiff adroddiad y Gweithgor ei ddefnyddio fel sail i'r cynigion penodol ar gyfer rheolaeth a'r defnydd amaethyddol o dir comin. Y bwriad yw cynnal ymgynghoriad ar y cyd yn ystod haf nesaf a chyhoeddi polisi'r Llywodraeth cyn diwedd y flwyddyn.

8. Mae pob un yng Nghymru sydd â diddordeb yn y maes wedi cael eu cynrychioli'n dda ar y gweithgor - mae'r aelodau'n cynnwys Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, Cymdeithas Cominwyr Gyr, Cymdeithas Cominwyr a Phorwyr Helygain, RSPB Cymru, Gweithgor Tir Comin Cymru a'r Gororau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ogystal â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nid yw'n fwriad i sefydlu grp ar wahân ar gyfer Cymru, ond bydd y mater yn parhau i gael ei ystyried wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

<u>Pwyntiau Cyswllt</u>

Bob Evans, Yr Is-adran Gynllunio Est 5358

Alan Starkey, Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio Est 5776